

Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru: Ymgynghoriad

Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Gwnaeth y tân yn Nhŵr Grenfell yn 2017 dynnu sylw at bwysigrwydd tai diogel a'r flaenoriaeth y dylid ei rhoi i sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi; ond yn anffodus mae Adolygiad Hackitt¹, a edrychodd ar y system bresennol yn dilyn y tân yn Grenfell, wedi cadarnhau nad yw hyn yn wir i rai yng Nghymru. Mae proffil uchel i ddiogelwch adeiladau yn y cyfryngau ac ar lawr y Senedd. Fodd bynnag, yn bwysicach na hynny, teimlir effaith adeiladau anniogel gan y rhai sy'n byw mewn adeiladau lle mae problemau, a chan lesddeiliaid yr adeiladau hynny.

Mae'r Gyfundrefn Diogelwch Adeiladau arfaethedig yn nodi cynigion sy'n cynrychioli diwygiad sylweddol i'r system bresennol; byddent hefyd yn creu'r gyfundrefn Diogelwch Adeiladau fwyaf cynhwysfawr yn y DU. Bydd y newidiadau arfaethedig a amlinellir gennym yn y Papur Gwyn ar Ddiogelwch Adeiladau yn cynnig gwelliannau i bob cam o gylich oes adeiladau amfeddiannaeth, o'r cam dylunio drwy'r cam adeiladu ac i'r cam meddiannu, er mwyn sicrhau bod yr adeiladau hyn yn ddiogel i bob preswlydd.

Nod y Gyfundrefn Diogelwch Adeiladau arfaethedig yw gwella diogelwch tân adeiladau o fewn cwmpas y gyfundrefn. Caiff adeiladau preswyl sy'n cynnwys dwy annedd neu fwy eu cynnwys yn y cwmpas hwn, gan fynd ymhellach na chanolbwyntio ar adeiladau uchel yn unig. Bydd y gyfundrefn yn nodi rolau a chyfrifoldebau i ddeiliaid dyletswydd, nid yn unig yn ystod y cam dylunio ac adeiladu, ond hefyd yn ystod y cam meddiannu, a bydd hyn yn nodi'n glir pwy sy'n atebol am ddiogelwch adeiladau ac am ddelio ag unrhyw fethiannau, os byddant yn codi yn y dyfodol.

Hirdymor

Ers blynyddoedd lawer, mae'r sector adeiladu wedi canolbwyntio ar sicrhau'r elw mwyaf ar draul diogelwch, ac mae wedi arwain at 'ras i'r gwaelod', er enghraifft, sy'n golygu deunyddiau adeiladu rhatach neu ffafrio dulliau sy'n lleihau costau yn hytrach na sicrhau'r diogelwch mwyaf. Bydd angen i'r diwylliant hwn newid; rydym wedi dechrau trafodaethau â'r sector adeiladu ar y gyfundrefn arfaethedig a nodir yn y Papur Gwyn ar ddiogelwch

¹ Adolygiad Hackitt - adolygiad annibynnol o reoliadau adeiladu a diogelwch tân

<https://www.gov.uk/government/publications/independent-review-of-building-regulations-and-fire-safety-final-report>

adeiladau, a byddwn yn parhau i wneud hynny yn ystod y cyfnod ymgynghori yn dilyn ei lansio yn ogystal â pharhau i gydweithio yn y dyfodol.

Mae tai yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru, ac mae unedau tai ychwanegol yn cael eu hadeiladu ledled y wlad, gan gynnwys yr ymrwymiad i ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy yn ystod tymor 2016-2021 y Llywodraeth. Mae'n debygol y bydd nifer yr adeiladau hyn yn syrthio o fewn cwmpas y cynigion a nodir yn y papur gwyn hwn, ac rydym am sicrhau y bydd yr adeiladau hynny mor ddiogel â phosibl drwy gydol eu cylch oes.

Mae a wnelo'r gyfundrefn hon â mwy nag adeiladau uchel yn unig. Mae'n cynnig cynnwys tŷ sydd wedi'i droi yn ddwy fflat, tŷ amlfeddiannaeth hyd at bloc o fflatiau uchel a adeiladwyd i'r pwrpas. Ar hyn o bryd mae miloedd lawer o adeiladau eisoes yn bodoli a gaiff eu cynnwys yn y cwmpas hwn. Bydd y gyfundrefn arfaethedig yn nodi'n glir y rhai sy'n gyfrifol ac yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau. Cânt eu dwyn i gyfrif am sicrhau bod pob adeilad y maent yn gyfrifol amdano (o fewn y cwmpas) yn adeiladau sydd mor ddiogel â phosibl, a bod unrhyw risgiau o dân yn cael eu rheoli'n briodol.

Ar hyn o bryd, ac yn gadarnhaol, dengys ystadegau tân fod achosion o dân yn lleihau yng Nghymru ac mae hyn yn rhywbeth rydym yn awyddus i wneud yn siŵr y bydd yn parhau. Fodd bynnag, cydnabyddwn y bydd ein cynigion ac unrhyw reoliadau a roddir ar waith yn y dyfodol yn gyfyngedig i strwythurau ffisegol a rolau a chyfrifoldebau deiliaid dyletswydd. Ni allwn reoleiddio ymddygiad pobl, sef achos mwyaf tân, ac fel y cyfryw, cydnabyddwn na fydd y newidiadau a gynigir yn lleihau'r risg o dân oherwydd ymddygiad pobl sydd, yn aml, yn anodd ei newid. Fodd bynnag, rydym yn gobeithio y bydd dealltwriaeth well gan breswylwyr o risgiau yn cefnogi newid mewn ymddygiad.

Atal

Mae'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn rhai ataliol eu natur. Bydd y newidiadau a gynigir yn sicrhau bod diogelwch tân yn gwella mewn adeiladau yng Nghymru. Nod y Gyfundrefn Diogelwch Adeiladau yw trin achos strwythurol sylfaenol materion diogelwch adeiladau sy'n galluogi tanau i ledaenu'n gyflym, gan olygu bod pobl yn wynebu mwy o risg o anaf a chyfrannu at farwolaethau, fel y gwelwyd yn Nhŵr Grenfell yn 2017.

Mae'r system bresennol o reoli adeiladau wedi galluogi datblygwyr i gael rheolaeth annifffiniedig yn ystod y camau dylunio ac adeiladu. Enghraifft o hyn, fel y nodwyd yn Adolygiad Hackitt, yw y gall datblygwyr ar hyn o bryd ddewis eu harolygydd cymeradwy eu hunain sy'n achosi gwrthdaro buddiannau o bosibl ar draul diogelwch. Bwriedir i'r cynigion ar gyfer rheoleiddio, mewn perthynas â chamau dylunio, adeiladu a meddiannu, roi dulliau ar waith a fydd yn sicrhau bod adeiladau'n cael eu hadeiladu a'u rheoli'n briodol. Yn y pen draw, bydd hyn yn cefnogi'r rhai sy'n rheoli adeiladau yn ystod meddiannaeth i atal tân rhag lledaenu, a lleihau anafiadau a marwolaethau o ganlyniad i hynny.

Mae'r cynigion yn nodi llwybr clir a chydlynol i atebolrwydd o ran datblygu a chodi adeiladau yng Nghymru. Rydym am gynnwys diogelwch adeiladu yn ethos unrhyw brosiect adeiladu drwy gyfundrefn reoleiddiol fwy cadarn o ddeiliaid dyletswydd. Yn ystod y

cyfnod meddiannu, rydym hefyd yn bwriadu creu rôl deiliad dyletswydd (Person Atebol) a fydd yn meddu ar set glir o rolau a chyfrifoldebau, gan gynnwys rhai mewn perthynas â phreswylwyr. Credwn y dylid cynyddu disgwyliadau preswylwyr o'r rhai sy'n rheoli adeiladau o fewn y cwmpas, a dylai preswylwyr fod yn glir ynghylch yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan y rhai sy'n rheoli adeiladau.

Integreiddio

Mae tai yn eitem drawsbynciol ar yr agenda mewn llawer o isadrannau yn Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran cysylltu ei effeithiau ag iechyd. Yn yr hinsawdd bresennol o fod yng nghanol pandemig Covid-19, rydym yn gorfod treulio mwy o amser gartref lle y gall y straen o fod mewn adeilad â phroblemau o ran diogelwch gael effaith negyddol ar les meddyliol rhywun. Y gobaith yw y bydd y newidiadau a wneir ochr yn ochr â'r diwygiadau deddfwriaethol hyn yn helpu lles meddyliol preswylwyr heddiw, ac yn yr hirdymor.

Mae integreiddio wedi bod wrth wraidd y ffordd rydym yn gweithredu. Yn y lle cyntaf, mae timau mewnol Llywodraeth Cymru mewn meysydd portffolio gwahanol wedi bod yn gweithio'n agos i ddatblygu'r Papur Gwyn ar ddiogelwch adeiladau, gan ystyried eu meysydd arbenigedd. Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi gweithio gydag Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Tân ac Achub er mwyn llywio ein syniadau cyn cyflwyno'r Papur Gwyn a sicrhau dull cydgysylltiedig sy'n cyfrannu at ddiogelwch, iechyd a llesiant, gyda llinellau atebolrwydd clir.

Cydweithio a Chyfranogi

Roedd natur y diwygiadau a gynigiwyd yn galw am gydweithio rhwng pob parti, er enghraifft, y rhai sy'n dylunio ac yn codi adeiladau, y rhai sy'n byw ynddynt ac yn eu rheoli, a'r rhai sy'n rheoleiddio'r adeiladau hynny. Bydd y Pum Ffordd o Weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn arwain y gwaith hwn.

Mae cydweithio a gwaith ymgysylltu o ran diogelwch adeiladau eisoes wedi dechrau yng Nghymru. Mae'r sector tai cymdeithasol a Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid (TPAS) eisoes wedi ymgysylltu i raddau helaeth â'u tenantiaid yn dilyn trychineb Tŵr Grenfell. Mae'r sector tai cymdeithasol eisoes wedi sefydlu canllaw arfer da mewn perthynas ag ymgysylltu â phreswylwyr ynghylch diogelwch adeiladau. Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi ymgysylltu â phreswylwyr mewn adeiladau uchel, yn enwedig lle y mae'n hysbys bod problemau, er mwyn ystyried sut i wneud adeiladau sydd eisoes yn bodoli yn fwy diogel.

Ar y cyfan, mae ymgysylltu uniongyrchol Llywodraeth Cymru â phreswylwyr wedi ymwneud â materion a oedd yn bodoli eisoes; fodd bynnag, bwriedir ymgysylltu â nhw yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y Papur Gwyn. Fel rhan o'r gwaith ymgysylltu penodol hwn, rydym wedi llunio fersiynau hawdd eu darllen y gellir eu darllen yn gyflym o'r Papur Gwyn er mwyn iddynt fod yn fwy hygyrch i gynulleidfa ehangach. Mae eglurydd fideo hefyd ar gael fel cyflwyniad i'n cynigion.

Mae defnyddio dull cydweithredol wedi bod yn hanfodol i Lywodraeth Cymru Iunio'r Papur Gwyn ar Ddiogelwch Adeiladau. Roedd creu grŵp arbenigol ar ddiogelwch adeiladau yn rhan o'r broses a arweiniodd at hyn, a oedd yn cynnwys aelodau a nodwyd uchod, yn ogystal â landlordiaid cymdeithasol ac adeiladwyr. O ganlyniad i ymgysylltu eang o'r fath hyd yma, mae cwmpas y cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn ehangach na'r rhai a gynigiwyd yn wreiddiol yn adolygiad Hackitt ac mae'n fwy perthnasol i Gymru. Mae ymgysylltu o'r fath wedi parhau wrth i'r gwaith ddatblygu; er enghraifft, mae ymgysylltu â chydweithwyr ym maes rheoli adeiladau wedi helpu i lywio'r cynigion ar gyfer y camau dylunio ac adeiladu. Roedd ymgysylltu â'r Gwasanaeth Tân ac Achub ac Awdurdodau Lleol sydd ag arbenigedd ym maes rheoli adeiladau ac iechyd yr amgylchedd yn hollbwysig i ddatblygu ein dealltwriaeth o raddfa'r problemau.

Rydym yn parhau i ddefnyddio dull cydweithredol i gynyddu ein dealltwriaeth o'r effaith a gaiff ein cynigion. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, a thu hwnt i hynny, rydym yn gobeithio y gall pob rhanddeiliad helpu i gyfrannu at ein syniadaeth wrth i ni barhau i fireinio'r cynigion polisi. Bydd y gwaith ymgysylltu hwn, yn enwedig i breswylwyr, yn helpu i godi eu disgwyladau am y ffordd y gallant ddisgwyl bod yn rhan o'r penderfyniadau yn y dyfodol am yr adeiladau y maent yn byw ynddynt.

Mae ymgynghoriad y Papur Gwyn yn gyfle i ddatblygu cydberthnasau newydd â rhanddeiliaid, yn ogystal â pharhau i atgyfnerthu'r rhai sydd eisoes yn bodoli. Mae ein partneriaid cyflawni yn hanfodol i hyrwyddo newid a datblygu unrhyw waith yn y dyfodol o ganlyniad i'r cynigion.

Bydd yr asesiadau effaith yn parhau i gael eu datblygu mewn ffordd iterus drwy gydol y broses, ar ôl'r ymgynghoriad ddod i ben ac ar ôl i safbwyntiau pobl gael eu casglu.

Effaith, Cost ac Arbedion

Mae Asesiad Effaith Economaidd² wedi cael ei gynnal yn annibynnol sy'n cwmpasu'r costau a'r manteision yn fanylach. Caiff hwn ei ddiweddarau a'i ddiwygio yn dilyn ymgynghoriad y Papur Gwyn, wrth i ni fireinio ein cynigion ac ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

Mecanwaith

Mae Gweinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y DU wedi datblygu Bil Diogelwch Adeiladau drafft. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth i nodi meysydd lle y gallwn ddod at ein gilydd i ddiwygio deddfwriaeth, a fyddai'n ein galluogi i sicrhau newid yn gyflym. Lle bydd polisiâu yn ymwahanu, rydym wedi nodi ein cynigion ni ar gyfer Cymru yn y Papur Gwyn hwn. Rydym yn defnyddio'r ymatebion i'r

² Asesiad Effaith Economaidd: <https://llyw.cymru/adeiladau-mwy-diogel-yng-nghymru>

ymgyngoriad gan y Weinyddiaeth a thystiolaeth ddilydol i feithrin ein dealltwriaeth o'r sefyllfa yng Nghymru ac i lunio ein cynigion ymhellach.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref ar eu gwaith o ddiwygio Gorchymyn Diogelwch Tân 2005 yn rheoleiddiol ³, a fydd hefyd yn berthnasol i Gymru. Mae'r gwaith hwn yn ymwneud ag amlen allanol y meysydd adeiladu ac egluro cyffredin. Byddwn yn deddfu'r diwygiadau hyn yng Nghymru cyn diwygiadau deddfwriaethol mwy cynhwysfawr fel y nodir yn y Papur Gwyn hwn.

Casgliad

Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi helpu i'w ddatblygu?

Mae trafodaethau ar yr angen i ddiwygio'r Gyfundrefn Diogelwch Adeiladau wedi bod yn gyhoeddus ers trychineb Tŵr Grenfell yn 2017.

Mae materion ynghylch diogelwch adeiladau wedi cael eu codi'n aml yn y Senedd a gyda Gweinidogion Cymru drwy ohebiaeth, cyfarfodydd rheolaidd a thrafodaethau ad-hoc gyda rhanddeiliaid a'r rhai y mae materion diogelwch adeiladau yn eu cartrefi yn effeithio arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys CLILC ac awdurdodau lleol, Awdurdodau Tân ac Achub, datblygwyr, perchnogion adeiladau, asiantau rheoli, adrannau eraill o'r Llywodraeth, y diwydiant cyllid, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, grwpiau o breswylwyr ac eraill. Rydym hefyd yn trafod â Llywodraeth y DU, a fydd yn cyflwyno Bil Diogelwch Adeiladau i'r Senedd yn 2021, a gyda'r diwydiant ar agweddau ar ein diwygiadau.

Cyhoeddwyd Papur Sefyllfa⁴, yn nodi cynlluniau Llywodraeth Cymru yn ystod haf 2020 ar gyfer ymgynghoriad. Mae ymatebion i'r ymgynghoriad hwn – ac ymgynghoriad tebyg a wnaed gan Lywodraeth y DU yn 2019 – wedi llywio'r cynigion yn y Papur Gwyn.-

Byddwn yn cynnal rhaglen o waith ymgysylltu yn ystod cyfnod ymgynghori'r Papur Gwyn, a fydd yn ceisio ymgysylltu â'r rhai y mae ein cynigion yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt. Rydym wedi llunio fersiynau hawdd eu darllen y gellir eu darllen yn gyflym o'r Papur Gwyn er mwyn iddynt fod yn fwy hygyrch i gynulleidfa ehangach. Mae fideo hefyd ar gael fel cyflwyniad i'n cynigion. Bydd ymatebion i ymgynghoriad y Papur Gwyn yn llywio ein cynigion polisi a'n cynlluniau parhaus i ddeddfu yn y maes hwn.

Byddem yn croesawu awgrymiadau gan unrhyw grwpiau sy'n cynrychioli'r rhai y gall ein cynigion effeithio arnynt – yn enwedig y rhai â nodweddion gwarchoddedig, pobl ifanc a grwpiau iaith Gymraeg perthnasol – er mwyn ymgysylltu ymhellach yn ystod y cyfnod ymgynghori a'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth yn y dyfodol.

³ Gorchymyn Diogelwch Tân 2005: <https://www.legislation.gov.uk/uksi/2005/1541/contents/made>

⁴ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-09/diogelwch-adeiladau-datganiad-sefyllfa.pdf>

Pa effeithiau, yn gadarnhaol ac yn negyddol, fu'r rhai mwyaf arwyddocaol?

Bydd ein cynigion ar gyfer Cyfundrefn Diogelwch Adeiladau yn cynnig gwelliannau i bob cam o gylch oes adeiladau amlfeddiannaeth, o'r cam dylunio drwy'r cam adeiladu ac i'r cam meddiannu, er mwyn sicrhau bod yr adeiladau hyn yn ddiogel i bob preswlydd.

Ers blynyddoedd lawer, mae'r sector adeiladu wedi canolbwyntio ar sicrhau'r elw mwyaf ar draul diogelwch, ac mae wedi golygu deunyddiau adeiladu rhatach neu ddulliau a ffafriwyd sy'n lleihau costau yn hytrach na sicrhau'r diogelwch mwyaf. Mae angen i'r diwylliant hwn newid. Mae newidiadau a gwelliannau wedi'u gwneud yng Nghymru a ledled y DU ers trychineb Tŵr Grenfell, ond mae angen gweithredu ymhellach, a bydd angen deddfwriaeth i ddatblygu rhai o'r newidiadau mwy arwyddocaol yr hoffem eu gweld.

Nodwyd ein cynigion cychwynnol mewn Papur Sefyllfa⁵ yn ystod haf 2020. Mae'r asesiad effaith integredig hwn yn cyd-fynd â Phapur Gwyn. Byddwn yn parhau i fireinio ein cynigion cyn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol newydd yng Nghymru. Lle y gallwn ddatblygu rhai agweddau ar ddiwygio diogelwch adeiladau gan ddefnyddio pwerau sydd eisoes yn bodoli neu rai a ddeilliodd o ddeddfwriaeth arfaethedig gan Lywodraeth y DU, caiff asesiadau effaith integredig eu cynnal ar fanylion y cynigion penodol hynny.

Mae'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn rhai ataliol eu natur, er mwyn sicrhau bod diogelwch tân yn gwella mewn adeiladau sydd o fewn cwmpas y cynigion hyn. Lleolir adeiladau o'r fath ledled Cymru, er mai yng Nghaerdydd ac Abertawe y ceir y gyfran uchaf o adeiladau preswyl uchel (Categori 1). Mae tua 150 o adeiladau uchel yng Nghymru.

Rhagwelwn effaith gadarnhaol sylweddol i'r rhai sy'n byw yn yr adeiladau o fewn y cwmpas a'u cymunedau ehangach, gyda'r effaith fwyaf ar breswylwyr sy'n byw mewn adeiladau uchel. Bydd effeithiau o'r fath yn cael eu gweld yn iechyd meddwl gwell preswylwyr sy'n byw mewn adeiladau ar hyn o bryd lle mae risg o dân ac yn nhawelwch meddwl pob preswlydd mewn adeiladau amlfeddiannaeth lle bydd mwy o wybodaeth ar gael iddynt am unrhyw risgiau posibl o dân a chamau lliniaru i'w cymryd ar gyfer eu cartref. Ar gyfer y cymunedau ehangach, bydd gwybod bod gan adeiladau o'r fath weithdrefnau diogelwch tân llym ar waith a'u bod mor ddiogel â phosibl, yn lleddfu unrhyw bryderon am y risg o dân mewn adeiladau o'r fath.

Nid oes gennym fynediad at ddata yn ymwneud ag oedran neu statws economaidd-gymdeithasol preswylwyr mewn adeiladau sydd o fewn cwmpas y cynigion hyn, ond awgryma tystiolaeth anectodaidd fod cyfran fwy yn debygol o fod yn breswylwyr iau neu hŷn nad oes eisiau, neu nad oes angen, y gofod sydd ar gael mewn mathau eraill o dai arnynt. Er nad yw'r data gennym, credwn, ar gyfer tai cymdeithasol a thai amlfeddiannaeth, fod preswylwyr yn fwy tebygol o fod mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is, tra bod i'r rhai sy'n berchen ar eiddo lesddaliol statws economaidd-

⁵ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-09/diogelwch-adeiladau-datganiad-sefyllfa.pdf>

gymdeithasol uwch. Felly, mae ein cynigion yn debygol o gael effaith ar draws grwpiau oedran a grwpiau economaidd-gymdeithasol.

Rhagwelwn y gall deiliadaeth tai gael effaith ar y cydbwysedd rhwng yr effeithiau cadarnhaol a negyddol ar breswylwyr. Dylai pob preswilydd brofi effeithiau cadarnhaol o ran lles meddyliol o ganlyniad i fyw mewn adeiladau mwy diogel. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gall cost rhai o gamau gweithredu ein cynigion, gael ei throsglwyddo i'r preswylwyr drwy daliadau gwasanaeth uwch neu daliadau tebyg – gallai'r effaith negyddol hon fod yn uwch o bosibl ar y rhai sy'n berchen ar eu heiddo a fydd yn gorfod talu'r costau hyn mewn un cyfandaliad blynyddol o bosibl; gall y rhai sy'n rhentu'n breifat neu yn y sector tai cymdeithasol, neu fel rhan o dai amlfeddiannaeth weld rhent yn codi i dalu'r costau hyn, ond caiff y costau hyn eu dosbarthu dros gyfnod rhentu.

Mae'n debygol o effeithio'n negyddol ar y diwydiant adeiladu a phobl sy'n gysylltiedig â hynny yn y byrdymor nes bod newidiadau, megis y cynigion yn y Papur Gwyn, yn cael eu cynnwys yn eu ffyrdd o weithio. Fodd bynnag, yn y tymor hwy rhagwelwn y bydd ein cynigion yn codi safonau, ac yn gwella cymhwysedd a chymwysterau'r rhai sy'n gweithio yn y diwydiant.

Mewn rhai achosion, caiff asiantau rheoli eu cyflogi i reoli adeiladau, gan gynnwys pryderon ynghylch diogelwch adeiladau. Mewn adeiladau sydd yng Nghategori 2, gall fod rôl Rheolwr Diogelwch Adeiladau ychwanegol hefyd er mwyn helpu'r Person Atebol i reoli adeilad yn ystod y gwaith adeiladu. Mae'n debygol y bydd unrhyw gostau ar gyfer cyflogi Rheolwr Diogelwch Adeiladau yn cael eu throsglwyddo i lesddeiliaid drwy daliadau gwasanaeth, sy'n throsglwyddo effaith negyddol costau cynyddol ar gyfer rheoli'r adeilad o berchennog yr adeilad i'r lesddeiliaid.

Er bod y Papur Gwyn yn cwmpasu gwelliannau i ddiogelwch adeiladau a diogelwch tân ar gyfer adeiladau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes, mae'r gwaith o adfer diffygion adeiladu presennol y tu allan i'r cwmpas.

Rydym wedi ystyried y pum ffordd o weithio a'r saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth ddatblygu'r cynigion hyd yma a byddwn yn parhau i wneud hynny, gan gynnwys drwy weithgarwch ymgysylltu yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y Papur Gwyn.

Mae Asesiad Effaith Economaidd ar wahân⁶ wedi cael ei gynnal ac fe'i cyhoeddir ochr yn ochr â'r asesiad effaith integredig hwn. Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn cynnwys crynodeb sy'n nodi'r materion allweddol.

⁶ Asesiad Effaith Economaidd: <https://llyw.cymru/adeiladau-mwy-diogel-yng-nghymru>

Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant;a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Credwn fod ein cynigion yn cyd-fynd â'r saith nod llesiant fel a ganlyn:

- Cymru Ffyniannus – mae ein cynigion yn nodi y bydd angen uwchsgilio'r gweithlu yn ystod y cam dylunio ac adeiladu, a fydd yn effaith gadarnhaol tymor hwy i'r unigolion hynny. Pan gaiff adeiladau eu meddiannu, rydym yn disgwyl proffesiynoli'r gweithlu a ddefnyddir yn fwy (e.e. aseswyr risg tân cymwysedig, rheolwyr diogelwch adeiladau trwyddedig ac ati) a fydd i gyd yn arwain at uwchsgilio'r gweithlu.
- Cymru Gydnerth – nid ydym o'r farn y bydd ein cynigion yn cyfrannu'n uniongyrchol at greu Cymru gydnerth, ond byddem yn croesawu gwybodaeth neu safbwyntiau i gefnogi'r nod hwn
- Cymru Iachach – rhagwelwn welliannau yn lles meddyliol preswylwyr, oherwydd byddant yn gwybod bod eu cartrefi yn fwy diogel a gallant gael mwy o wybodaeth am ddiogelwch adeiladau yn eu hadeiladau.
- Cymru sy'n Fwy Cyfartal – bydd pob preswlydd yn elwa ar fwy o atebolrwydd am ddiogelwch tân yn eu cartrefi, a bydd pob preswlydd hefyd yn gallu cael mwy o wybodaeth am ddiogelwch eu hadeilad, a ddylai gael ei darparu mewn fformat sy'n addas i'w hanghenion.
- Cymru o Gymunedau Cydlynus – bydd creu adeiladau mwy diogel a gwella diogelwch preswylwyr yn arwain at eiddo hyfyw tymor hwy a fydd yn sefyll prawf amser.
- Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau cadarnhaol penodol, ond ni fydd unrhyw effeithiau negyddol ychwaith
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang – bydd y diwygiadau i ddiogelwch adeiladau yn helpu i hyrwyddo adeiladau mwy diogel ac arferion gorau

Cred Llywodraeth Cymru y bydd y sefyllfa bresennol ynghylch yr angen i ddiwygio materion diogelwch adeiladau yn lleihau'r effeithiau negyddol cyfredol a welir o ganlyniad i adeiladau na chânt eu codi yn unol â safonau rheoliadau adeiladu. Er enghraifft, y defnydd o ddeunyddiau adeiladu anaddas a phroblemau ynghylch adrannu yn y gorffennol, a'r effaith a gaiff hyn ar breswylwyr presennol mewn adeiladau o'r fath.

Yn ystod y broses o ddatblygu deddfwriaeth yn y dyfodol yn y maes hwn, byddwn yn ymgysylltu â'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf – o ddatblygwyr a'r diwydiant adeiladu, i'r rhai â rôl reoleiddio ar hyn o bryd, a'r rhai sy'n rheoli neu'n byw mewn adeiladau o fewn cwmpas ein cynigion – er mwyn sicrhau ein bod yn deall yr effeithiau yn llawn (cadarnhaol a negyddol). Nodir y rhain mewn diwygiadau i'r asesiad effaith integredig.

Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan ddaw i ben?

Mae'r asesiad effaith integredig hwn yn cyd-fynd â Phapur Gwyn ar Ddiogelwch Adeiladau.

Ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori, caiff pob ymateb ei adolygu a'i ddefnyddio i fireinio'r cynigion ymhellach fel rhan o'r broses o ddatblygu deddfwriaeth ddrafft yn y maes hwn. Ein bwriad yw ymgynghori ar Fil drafft cyn ei gyflwyno i'r Senedd, pan gaiff yr asesiad effaith integredig ei ddiwygio er mwyn ystyried unrhyw dystiolaeth newydd ac i gwmpasu'r cynigion a fireiniwyd.

DATGANIAD

Datganiad

Rwy'n fodlon bod effaith y cam(au) gweithredu arfaethedig wedi'i hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r Uwch-Swyddog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr: **Amelia John, Dirprwy Gyfarwyddwr, Adran Polisi Tai**

Adran: **Yr Adran Tai ac Adfywio**

Dyddiad: **12 Ionawr 2021**